



## **ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**4 HYDREF 2017**

---

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Cynllun Busnes Lefel 1

---

### **1.0 Pwrpas yr adroddiad**

1.1 Cyflwyno Cynllun Busnes Lefel 1 i'r Cyd-bwyllgor.

### **2.0 Cefndir**

2.1 Mae Cynllun Busnes Rhanbarthol 2017-2020 (a'r cynllun ôl-arolygiad) yn nodi gweledigaeth 3 blynedd, blaenoriaethau, gweithredoedd, allgynnyrch a meini prawf llwyddiant ar draws y rhanbarth.

### **3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Mae'r cynllun busnes diwygiedig wedi'i diweddarau.

3.2 Mae'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad wedi'i ymgorffori yn y cynllun busnes er mwyn sicrhau y cydlynir y ddau gynllun yn effeithiol.

3.3 Mae Fframwaith Cynllunio Busnes ac Atebolrwydd GwE (tudalen 14) wedi'u datblygu i sicrhau eglurder mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau o fewn y consortiwm, yn ogystal â sicrhau bod y cynlluniau'n cynnwys meini prawf llwyddiant clir sy'n arwain at fonitro effeithiol a systematig.

3.4 Mae Cynllun Busnes Rhanbarthol 2017-2020 (a'r cynllun ôl-arolygiad) yn nodi'r weledigaeth 3 blynedd, blaenoriaethau, gweithredoedd, allgynnyrch a meini prawf llwyddiant ar draws y rhanbarth. Y cynllun hwn yw cynllun Lefel 1 o fewn y Fframwaith Cynllunio Busnes newydd, a'r

---

Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â chyfrifoldeb am gyflawni'r cynllun fel swyddogion atebol. Y Cyd-bwyllgor sydd yn atebol yn y pen draw am gyflwyno'r cynllun.

3.5 Mae cynlluniau blynyddol lefel 2 a 3 yn dod o dan gynllun Lefel 1 ac yn cynnig manylion pellach mewn perthynas â'r camau gweithredu i'w cymryd, a'r allgynnyrch a'r meini prawf llwyddiant i'w cyflawni. Mae'r fframwaith cynllunio busnes tair lefel a ddatblygwyd yn sicrhau atebolrwydd am gyflwyno ac yn cynnig strwythur ar gyfer monitro cynnydd yn effeithiol.

3.6 Adroddir ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes mewn cyfarfodydd Cyd-bwyllgor chwarterol.

#### **4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Busnes ar gyfer 2017-2020.

#### **5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **8.0 Ymgynghori a Wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli a Bwrdd Ymgynghorol GwE yn ystod datblygu'r ddogfen hon.

#### **9.0 Atodiadau**

9.1 Cynllun Busnes 2017-2020

---

### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

#### **Swyddog Monitro:**

Cyflwynir sylwadau, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Cydbwyllgor.

#### **Swyddog Cyllid Statudol:**

---

Cyflwynir sylwadau, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Cydbwyllgor.